COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR Y CABINET DROS FATERION RHIENI CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD O BELL TRWY TIMAU MICROSOFT DYDD IAU, 8 EBRILL 2021, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd NA Burnett – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| HM Williams | N Clarke | HJ David | J Gebbie |
| CA Green | D Patel | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RM James, JC Radcliffe, CE Smith a/ac DBF White

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Alex Fitzpatrick | Rheolwr tîm |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Steven Howell | Rheolwr Grwp, Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Mark Lewis | Rheolwr Grŵp Gwaith Integredig a Chymorth i Deuluoedd |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| David Wright | Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd |

225. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd Huw David fuddiant personol yn eitem 4, "Diweddariad ar Sefydlu Fframwaith Maethu Cenedlaethol a Gwaith Cyfredol mewn perthynas â Darpariaeth Gofal Maeth Mewnol" gan ei fod yn llefarydd ar ran CLlLC a oedd yn rhan o drafodaethau ynghylch y Fframwaith Maethu Cenedlaethol a benodwyd i CLlLC gan CBSP, ond nad oedd wedi bod yn rhan o'r blynyddoedd diwethaf.

Datganodd y Cynghorydd Nicole Burnett fuddiant personol yn eitem 4, "Diweddariad ar Sefydlu Fframwaith Maethu Cenedlaethol a Gwaith Cyfredol mewn perthynas â Darpariaeth Gofal Maeth Mewnol" gan ei bod yn aelod o'r Panel Maethu ac wedi'i phenodi gan CBSP.

226. CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNIAD: Bod Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor y Cabinet Rhianta Corfforaethol ar 4 Chwefror 2021 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

227. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM SEFYDLU FFRAMWAITH MAETHU CENEDLAETHOL (NFF) A GWAITH CYFREDOL MEWN PERTHYNAS Â DARPARIAETH GOFAL MAETH MEWNOL

Croesawodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles y cyfle i drafod maethu yn y Pwyllgor Rhianta Corfforaethol a thynnodd sylw at y ffaith bod y gwasanaeth gofal maeth, ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, yn rhan hanfodol o'r hyn a wnaeth y Cyngor i fod yn rhieni corfforaethol da. Bu eleni wedi yn flwyddyn eithriadol, yn enwedig i'r teuluoedd maeth a'r plant. Diolchodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles i ofalwyr maeth am bopeth yr oeddent wedi'i wneud drwy gydol y pandemig, gan eu cydnabod fel arwyr di-glod am y cyfnod hwnnw.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, roedd y gwasanaeth maethu, dan arweiniad Rheolwr y Grŵp - Gwasanaethau Lleoliadau a Darparwyr, yn rhan o ddull system gyfan o ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles eu bod am barhau i ehangu'r gwasanaeth gofal maeth, o ran recriwtio yn ogystal ag o ran cadw staff, a nododd bod y ffigurau ynghylch recriwtio, sefydlogrwydd lleoliadau, a chadw gofalwyr maeth yn galonogol.

Cyflwynodd Rheolwr y Grŵp - Gwasanaethau Lleoliadau a Darparwyr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Rhianta Corfforaethol am hynt y gwaith a wnaed ar sefydlu Fframwaith Maethu Cenedlaethol yng Nghymru ynghyd â gwybodaeth wedi'i diweddaru am ddarpariaeth gwasanaeth Gofal Maeth Pen-y-bont ar Ogwr a'r adolygiad o wasanaethau maethu a datblygiadau a oedd ar y gweill. Cytunodd â'r sylwadau a wnaed gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles a diolchodd i'r gofalwyr maeth a'r tîm a oedd yn eu cefnogi mewn blwyddyn arbennig o anodd.

Eglurodd Rheolwr y Grŵp - Lleoliadau a Gwasanaethau Darparwyr fod yr adroddiad yn dilyn gwybodaeth a gyflwynwyd ynghynt i'r Pwyllgor Rhianta Corfforaethol gan Bennaeth y Gwasanaethau yn ôl yn 2018. Amlinellodd gam un, cam dau, a cham tri, pan benodwyd rheolwyr datblygu rhanbarthol ledled Cymru i ymgysylltu â'r ffrydiau gwaith cenedlaethol a chydlynu cynlluniau ar gyfer cyflawni yn eu hardaloedd. Amlinellodd Rheolwr y Grŵp - Lleoliadau a Gwasanaethau Darparwyr y sefyllfa bresennol a bod Pen-y-bont ar Ogwr, ers mis Ebrill 2019, yn rhan o Bartneriaeth/Bwrdd Iechyd Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg. Cynhaliwyd swydd Rheolwr Datblygu Rhanbarthol y rhanbarth hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RhCT). Er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol ar draws y rhanbarth, roedd grŵp strategol wedi'i sefydlu i ddarparu trosolwg a chraffu er mwyn monitro perfformiad ffrydiau gwaith y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar lefel leol a rhanbarthol. Cefnogwyd y grŵp strategol gan grŵp gweithredol i gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd a chytunwyd ar Raglen Waith ranbarthol i gefnogi'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol.

Roedd Rheolwr y Grŵp - Lleoliadau a Gwasanaethau Darparwyr yn falch o adrodd fod y Drws Ffrynt Rhanbarthol yn fyw ers 1 Ebrill  ac roeddent eisoes wedi bod yn derbyn galwadau ffôn ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gydag ymholiadau gan bobl a oedd am fod yn ofalwyr maeth a chafwyd ymweliad cyntaf â darpar ofalwr maeth newydd. Y maes gwaith nesaf oedd datblygu 'Cynnig Awdurdod Lleol' rhanbarthol ac roedd pob un o'r tri ALl wedi cwblhau'r templed cynnig craidd cenedlaethol a gynlluniwyd gan y Rheolwr Datblygu Rhanbarthol, a oedd wedi casglu ac amlygu'r cysondeb/gwahaniaethau ar draws y rhanbarth. Roedd gwaith wedi'i wneud i ddatblygu polisi Adnoddau Dynol newydd ar gyfer pob ALl gyda'r bwriad o'u sefydlu fel "Sefydliadau sy'n Ystyriol o Faethu".

Eglurodd Rheolwr y Grŵp - Lleoliadau a Gwasanaethau Darparwyr fod ffioedd a lwfansau yn faes allweddol i gysoni taliadau ar gyfer pob gofalwr maeth. Roedd pob un o'r tri ALl wedi cysylltu â'r gweithgor cenedlaethol ar gyfer y maes datblygu hwn ac roeddent yn y camau cynnar o ystyried opsiynau a fyddai'n cefnogi dull rhanbarthol o dalu gofalwyr.

Daeth Rheolwr y Grŵp - Lleoliadau a Gwasanaethau Darparwyr i'r casgliad drwy ddweud bod y cydweithio ar draws y rhanbarth yn gadarnhaol iawn o ran cyfarfodydd chwarterol, o ran cael cynrychiolaeth o bob ALl mewn grwpiau gorchwyl a gorffen rhanbarthol, o ran y grŵp strategol rhanbarthol, ac o ran lansiad cyfarfodydd grŵp gweithredol bob deufis.

Eglurodd Rheolwr y Grŵp - Lleoliadau a Gwasanaethau Darparwyr y cynigiwyd yn 2018 y byddai 6 Gofalwr Maeth Trosiannol yn cael eu recriwtio a fyddai'n bont i bobl ifanc sy'n dod allan o'r unedau preswyl cyn cael eu rhoi mewn lleoliad teuluol neu leoliad annibynnol hirdymor. Dim ond 3 Gofalwr Maeth Trosiannol a lwyddodd y cynllun ei recriwtio, a chymeradwywyd hwy ddechrau 2019, ond cafodd hyn effaith ar lwyddiant cyffredinol. Ym mis Ionawr 2021 cynhaliwyd adolygiad o'r cynllun hwn, gydag un o'r gofalwyr maeth trosiannol blaenorol yn ganolog i'r trafodaethau/penderfyniadau ac yn eu llywio, ac roeddent ar hyn o bryd yn ceisio recriwtio 5 gofalwr ychwanegol.

Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd at y 6 gofalwr maeth trosiannol a gofynnodd beth fyddai'n cael ei wneud yn wahanol y tro hwn a pha mor hyderus oedd y tîm y byddai'r swyddi'n cael eu llenwi. Dywedodd Rheolwr y Grŵp - Gwasanaethau Lleoliadau a Darparwyr y byddai polisi clir ar waith i gefnogi gwaith y gofalwyr maeth trosiannol, fel y gallent ddeall beth i'w ddisgwyl gan y gwasanaeth o ran y cymorth fyddai ar gael a sut y byddai'n cael ei ddarparu. O adborth a gafwyd yn flaenorol, gwelwyd bod gofalwyr maeth a ddaeth i mewn i'r rôl yn gorfod gwneud rôl ychydig yn wahanol i'r hyn a ddywedwyd wrthynt ee, y gofalwr yn credu mai dim ond dros gyfnodau rhagarweiniol hir y byddai ganddynt blentyn, ac y byddent wedi dod i adnabod y plentyn yn gyntaf, ond y gofynnwyd iddynt ofalu am blant ar fyr rybudd ac mewn argyfyngau. Doedd rhywfaint o'r gefnogaeth ddim ar gael iddynt, fel cyfnodau seibiant.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i Reolwr y Grŵp - Lleoliadau a Gwasanaethau Darparwyr am ei ateb cynhwysfawr a gofynnodd sut y gellid rhoi cymorth heb dîm llawn. Holodd beth oedd yn cael ei wneud i ddenu gofalwyr cymdeithasol i'r gwasanaeth, a oedd taliadau'n gystadleuol gydag awdurdodau cyfagos, a beth oedd y gwahaniaethau rhwng y gwasanaeth mewnol a'r sector annibynnol?

Atebodd Rheolwr y Grŵp - Lleoliadau a Gwasanaethau Darparwyr fod cael tîm llawn o ofalwyr maeth trosiannol yn arwyddocaol, yn ogystal â chael tîm staff llawn. Ers mis Tachwedd 2019 roedd ganddynt gyllid ar gyfer pedwar gweithiwr ailuno fel rhan o'r gefnogaeth, rhywbeth a oedd yn ychwanegol at yr hyn oedd yno o'r blaen. O ran gofalwyr maeth, ni fyddai'r arian a delir i'r gofalwyr maeth yr un fath ag asiantaeth faethu annibynnol. Fodd bynnag, roedd cymorth i ymgymryd â'r rôl yn chwarae rhan sylweddol wrth ddenu gofalwyr maeth ac roedd yn bwysig sicrhau bod y gofalwr maeth yn teimlo fel rhan o dîm proffesiynol.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod cael seibiant rheolaidd o ofalu maeth, o ystyried dwyster y gwaith, yn bwysig. Nid oedd hwn yn wasanaeth annibynnol ac roedd yn rhan o'r ailfodelu cyffredinol a oedd yn gysylltiedig â'r hyn a wnaed drwy Maple Tree a'r gweithlu yno. Roedd dadansoddwr ymddygiadol wedi'i recriwtio ac roedd wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol o ran y cymorth ymarferol ar sut i ddelio â sefyllfaoedd. Byddai'r holl bethau hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau ei fod yn deg yn ariannol i ofalwyr maeth.

Gwnaeth y Rheolwr Tîm - Gwasanaethau Lleoli gyflwyniad sef, "Diweddariad Gofal Maeth Pen-y-bont ar Ogwr". Yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020, eglurodd y cafwyd 142 o ymholiadau cychwynnol, cynhaliwyd 40 o ymweliadau cychwynnol, dechreuon nhw 21 o asesiadau maethu a chymeradwyo 8 gofalwr maeth. Cyflawnwyd cyfradd trosi o 5.6% yn CBSP, o'i gymharu â 2.6% ar gyfer RhCT a 6.5% ar gyfer Merthyr. Yn 2021 roedd cyfyngiadau ar symud oherwydd y pandemig ac addasodd y tîm sut roedden nhw'n gweithio gyda gofalwyr fel rhan o'u proses asesu, gan gynnal asesiadau rhithwir a thrwy ddefnyddio ffonau clyfar a thechnoleg. Ni chymeradwywyd asesiad mewn apêl heb o leiaf un asesiad wyneb yn wyneb.

Amlinellodd y Rheolwr Tîm – Gwasanaethau Lleoli y newidiadau i hyfforddiant cyn cymeradwyo, sy'n gyfle eithriadol o bwysig i sicrhau bod y gofalwyr maeth yn

ymwybodol o'r heriau a'r materion y gallent orfod ymdrin â hwy a'r boddhad mawr a geir o faethu. Rhoddodd amlinelliad o Bythefnos Gofal Maethu, sef ymgyrch genedlaethol flynyddol y Rhwydwaith Maethu i godi proffil maethu dros gyfnod o bythefnos, a chwaraeodd fideo o wraig ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac a oedd yn dal i fyw gyda'r un gofalwr maeth o dan drefniant 'pan fydda i'n barod'.

Cyflwynodd y Rheolwr Tîm – Gwasanaethau Lleoli y canfyddiadau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021, pan gafwyd 104 o ymholiadau cychwynnol, cynhaliwyd 43 o ymweliadau cychwynnol, dechreuwyd 27 o Asesiadau Maethu, a chymeradwywyd 16 o ofalwyr maeth. Roedd hyn yn gynnydd o 100% mewn cymeradwyaethau a chyfradd trosi uwch o 15.3%.

Rhoddodd y Rheolwr Tîm – Gwasanaethau Lleoli fanylion am yr asesiadau Personau Cysylltiedig, gyda 53 ohonynt eisoes wedi dechrau. Ychwanegodd eu bod, wrth edrych i'r dyfodol, wedi dysgu gwerth straeon personol a'u bod yn gweithio i nodi gofalwyr a phobl ifanc i fod yn rhan o ymgyrchoedd recriwtio. Byddent yn parhau i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn helaeth o fewn gweithgarwch ymgyrchu. Byddai ymgyrch Genedlaethol Maethu Cymru yn hyrwyddo manteision gofal maeth awdurdodau lleol i'w galluogi i adeiladu ar y sylfaen hon, a byddai dull rhanbarthol o recriwtio yn eu galluogi i rannu arfer gorau a gwneud rhagor o welliannau i sgrinio yn ystod y cam ymweld cychwynnol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Tîm – Gwasanaethau Lleoli a Rheolwr y Grŵp – Lleoliadau a Gwasanaethau Darparwyr. Diolchodd hefyd i'r gofalwyr maeth a phawb a oedd yn ymwneud â'r timau maeth.

Canmolodd yr Aelod y gwaith gwych roedd y gofalwyr maeth yn ei wneud. Teimlai fod y ffilm yn deimladwy iawn, ac yn dangos ymdeimlad o berthyn, a diolchodd i'r Rheolwr Tîm - y Gwasanaethau Lleoli a'r tîm am yr holl waith yr oeddent yn ei wneud.

Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Rheolwr Tîm – Gwasanaethau Lleoli am y cyflwyniad pwerus. Gwnaeth ymgysylltiad a llwyddiant y storïau a'r cyfryngau cymdeithasol argraff arno, ac roedd ganddo ddiddordeb mewn gwybod beth allai'r Cyngor ei wneud ar draws ei holl adnoddau a staff i helpu i adeiladu ar y llwyddiant yr oeddent eisoes wedi'i gael.

Dywedodd y Rheolwr Tîm – Gwasanaethau Lleoli y byddai'n ddefnyddiol pe gallai pobl rannu eu negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol a sicrhau bod y lleoliadau'n cael eu gosod i'r cyhoedd. Byddai hefyd yn hapus i fynd i amgylcheddau gwahanol a chyflwyno cyflwyniadau am faethu. Roedd wedi rhoi cyflwyniad yng Ngharchar y Parc ac yn sgil hynny daeth rhywun i'r fei a gafodd ei asesu a'i gymeradwyo i fod yn ofalwr maeth.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, wrth adnewyddu'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol, y dylid ystyried sut y gallai'r cyngor cyfan gyfrannu a pha bethau fyddai'n gwneud gwahaniaeth i ofalwyr maeth.

Cydnabu Rheolwr y Grŵp – Lleoliadau a Gwasanaethau Darparwyr fod y Tîm Cyfathrebu wedi gwneud gwaith gwych i gefnogi'r tîm ac y byddai eu cefnogaeth barhaus yn cael ei werthfawrogi. Heriodd aelodau i adnabod unigolion a'u rhoi ar ben ffordd, gan eu hannog i fod yn ofalwr maeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Gofynnodd y Cadeirydd am fwy o hyfforddiant i Gynghorwyr i'w helpu i recriwtio o fewn eu hamgylcheddau, a'r hyn y dylent gadw llygad amdano a'r wybodaeth y gallent ei rhannu ag unigolion.

Llongyfarchodd yr Arweinydd y tîm ar eu perfformiad, a wnaed tra'n cynnal safonau uchel ac o leiaf un ymweliad â chartref. Gofynnodd yr Arweinydd a oedd unrhyw ffigurau ar ailuno a sefydlogrwydd y gallent eu defnyddio fel meincnod yn erbyn awdurdodau eraill. Gofynnodd a oedd ganddynt gysylltiadau ag eglwysi lleol a phobl â meddylfryd

cadarnhaol a allai ddarparu cartrefi gofalgar a sefydlog i blant. Gofynnodd hefyd a oedd cefnogaeth i frodyr a chwiorydd a phlant biolegol gofalwyr maeth. Roeddent yn rhan bwysig o amgylchedd y teulu ac roedd rhai lleoliadau wedi chwalu oherwydd nad oedd y berthynas gyda phlant biolegol yn gweithio.

Cadarnhaodd y Rheolwr Tîm – Gwasanaethau Lleoli ei bod wedi cwrdd â thri offeiriad yn yr ardal a oedd yn frwdfrydig ac yn gefnogol iawn ac yn hapus i weithio gyda nhw yn y dyfodol. Efallai y bydd ganddynt sianeli cyfryngau cymdeithasol hefyd y gellid eu harchwilio. O ran plant biolegol gofalwyr maeth, roedd gwaith rhagorol wedi'i wneud yn yr ardal honno ac roedd gweithiwr cymdeithasol penodedig yn y swydd a oedd wedi trefnu gweithgareddau/teithiau amrywiol gyda hwy, a rhan o'r cynllun gweithredu oedd ail-ddechrau'r gweithgareddau hyn pan fydd hynny’n ddiogel. Cadarnhaodd fod yr adborth gan blant gofalwyr wedi bod yn dda iawn a'u bod yn rhannu'r un gwerthoedd â'u rhieni a’u bod yn ymroddedig i'r amgylchedd maethu. Yr adborth arall a gafwyd yn gyson oedd y gefnogaeth a roddwyd gan y gweithwyr cymdeithasol sy’n goruchwylio, lle trafodwyd yr aelwyd ac nid gofalwyr neu blant yn unig. Roedd ymestyn y ddarpariaeth hyfforddiant i ar-lein wedi galluogi plant gofalwyr maeth i fanteisio ar yr hyfforddiant hwnnw hefyd ac i ehangu eu dealltwriaeth.

O ran y partneriaid rhanbarthol a pherfformiad o ran ailuno a sefydlogrwydd lleoliadau, dywedodd y byddai angen iddynt edrych ar Ffurflenni'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol am dystiolaeth. Yr oedd yn rhywbeth y gellid edrych arno ac y mae wir yn cyd-fynd â’r dull rhanbarthol, â rhannu arferion, ac â cheisio gwella pethau fel rhanbarth a thargedu ardaloedd.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol pa ran oed gan lais y plentyn sy'n derbyn gofal yn yr ailstrwythuro, a sut y byddai profiad y plentyn yn llywio'r gwasanaeth wrth symud ymlaen. Hefyd mewn perthynas â thai, roeddent wedi nodi rhai nodweddion penodol, megis statws perthynas, fel rhwystr posibl i faethu a gofynnodd a oedd tai wedi'u nodi fel rhwystr posibl, ac a ellid gwneud rhywbeth gyda phartneriaid tai i helpu i’w oresgyn.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod swydd Swyddog Rhianta Corfforaethol yn cael ei chreu i sicrhau bod lleisiau’r plant a phobl ifanc yn cael eu clywed, ac y byddai gan y swydd honno rôl benodol o ran ymgysylltu a chyfranogi â’r holl blant sy'n derbyn gofal yn ogystal â’r rhai sy'n gadael gofal. Byddent yn gweithio ar draws partneriaethau a gwahanol adrannau a chyda'r trydydd sector, gyda LCCs, a chydag Iechyd, ac adlewyrchwyd hyn yn eu gwaith rhianta corfforaethol.

Cytunodd y Rheolwr Tîm – Gwasanaethau Lleoli fod tai wedi bod yn her, yn enwedig wrth gael mynediad at berson cysylltiol fel rhan o achos llys. Nid oedd yn briodol peidio â lleoli plentyn gyda rhywun a oedd â'r gallu i ddarparu cartref parhaol i blentyn pan mai'r unig fater oedd mynediad i dai. Cai’r mater ei drafod fesul achos, ac roedd yr holl asiantaethau tai yn gefnogol o ran trosi ystafelloedd ac ati.

Ychwanegodd y Cadeirydd fod hwn yn gadarnhaol iawn a chytunodd y gallai tai fod yn rhwystr i'r rhai a oedd am faethu ac y byddai'n ddefnyddiol sefydlu system gymorth.

| | |
|---|---|
| <u>PENDERFYNIAD:</u> | Nododd Rhianta Corfforaethol Pwyllgor y Cabinet y wybodaeth ddiweddaraf yn yr adroddiad a chefnogodd ddatblygiad pellach gwasanaeth Gofal Maeth Pen-y-bont ar Ogwr fel y nodir yn yr adroddiad. |

228. <u>PLANT MEWN ADDYSG SY'N DERBYN GOFAL</u>

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd mai diben yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cymorth i Blant mewn Addysg sy'n

Derbyn Gofal (LACE) ar draws yr awdurdod lleol. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio'n benodol ar y cymorth a roddwyd i Blant sy'n Derbyn Gofal ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar gyfer y flwyddyn ysgol 2020-2021.

Rhoddodd Rheolwr y Grŵp, Cymorth i Deuluoedd rywfaint o gefndir i'r sefyllfa bresennol ac yna eglurodd bod 271 o ddisgyblion oedran ysgol statudol ar 19 Mawrth 2021 a oedd yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, bod 64 o'r rhain yn cael eu haddysgu y tu allan i'r sir. Roedd y gwaith o gefnogi LACE yn rhan o rôl y Tîm Ymgysylltu ag Addysg (EET), ac roedd hyn yn darparu un pwynt cyswllt ar gyfer pob asiantaeth gan gynnwys ysgolion, Gofal Cymdeithasol Plant (CSC) a gwasanaethau eraill ar gyfer gwybodaeth, cyngor, hyfforddiant ac arweiniad i ddysgwyr sy'n agored i niwed gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal. Mae'r tîm yn darparu hyfforddiant i'r ysgolion ac yn parhau i fod yn bwynt cyswllt ar gyfer athro dynodedig yr ysgol o ran Cynlluniau Addysg Bersonol (PEPs) ac unrhyw faterion eraill a allai godi ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Gweithiodd yr EET gyda phob clwstwr ysgol i ddatblygu cynllun clir a chydlynol i gefnogi plant sy'n derbyn gofal drwy eu Grant Datblygu Disgyblion (PDG). Roedd hyn yn cynnwys penodi cwnselydd mewn ysgolion i gydnabod yr effaith y gallai derbyn gofal ei gael ar ddysgu, penodi Swyddogion Cymorth Dysgu (LSO) i ddarparu hyfforddiant 'Ffynnu' i hyrwyddo cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal, a hyfforddiant iechyd meddwl a thrawma i staff er mwyn ystyried ymddygiad plant a oedd wedi ymuno â'r system ofal yn yr ysgol.

Eglurodd Rheolwr y Grŵp, Cymorth i Deuluoedd fod gan yr awdurdod lleol fynediad at gyllid PDG drwy EET er mwyn cefnogi Plant sy'n Derbyn Gofal. Eleni, defnyddiwyd yr arian i gynnig addysg ychwanegol i'r plant hynny sydd â'r angen mwyaf am gymorth ychwanegol. Hyd yma, roedd 33 o blant sy'n derbyn gofal wedi cael hyfforddiant ychwanegol gan athro ysgol yn ystod y pandemig. Roedd y cymorth hwn yn amrywio o awr yr wythnos hyd at chwe awr yr wythnos, yn dibynnu ar eu hanghenion. Roedd y cymorth yn canolbwyntio ar sgiliau llythrennedd, rhifedd, ac ymarferol fel 'ysgolion coedwig' a phrosiectau cerddoriaeth ar-lein. Roedd y EET hefyd yn darparu hyfforddiant i ysgolion a phartneriaid mewn perthynas ag effaith trawma a sut y gallai hyn effeithio ar allu plentyn i gymryd rhan mewn dysgu. Mae'r tîm wedi hyrwyddo hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl mewn ysgolion mewn ymateb i'r effeithiau ar les emosiynol plant sy'n derbyn gofal. Ychwanegodd fod cynlluniau PDG a gynhyrchwyd gan ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi'u nodi mewn adolygiad thematig diweddar gan Estyn ynghylch arfer da gyda phlant sy'n derbyn gofal (e.e. olrhain disgyblion a gwaith pontio penodedig). Yn benodol, nodwyd bod Ysgol Brynteg ac Ysgol Gynradd Pen-y-bont yn gweithredu modelau arfer da ar gyfer y dysgwyr hynny. Roedd yr awdurdod lleol hefyd wedi bod yn ganolog wrth ddatblygu profiad gwaith a chyfleoedd prentisiaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Datblygwyd hwn fel llwybr i'r dysgwyr hynny sy'n gadael addysg yn yr haf gyda'r nod o sicrhau cyfleoedd cyflogaeth. Cyflwynwyd cyfle i bob dysgwr blwyddyn 11 sy'n derbyn gofal gymryd rhan mewn profiad gwaith yn ystod gwyliau'r haf.

Eglurodd Rheolwr y Grŵp Cymorth i Deuluoedd, gydag effaith COVID-19, fod gweithio amlasiantaethol wedi bod yn allweddol wrth sicrhau bod pob plentyn yn parhau i gael mynediad at addysg yn ystod y cyfnod hwn. Roedd hyn yn cynnwys mynediad at ddarpariaeth ar safle'r ysgolion pan oedd cyfyngiadau cenedlaethol yn cael eu gweithredu. Darparwyd offer digidol ar gyfer y dysgwyr hynny a oedd eu hangen i gynorthwyo gyda dysgu gartref. Roedd yr ysgolion a gofal cymdeithasol plant yn parhau i fonitro a chysylltu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod anghenion plant sy'n derbyn gofal yn parhau i gael eu diwallu yn ystod y pandemig. Cafodd pob plentyn sy'n derbyn gofal eu hystyried i dderbyn darpariaeth ar safle'r ysgol, fodd bynnag, rhoddwyd pwyslais a blaenoriaeth i'r plant hynny mewn lleoliadau maeth a oedd mewn perygl o chwalu. Ers mis Ionawr 2021, ar gyfartaledd, roedd 50 o blant sy'n derbyn gofal yn cael darpariaeth ar y safle (oedran ysgol gynradd hyd at Flwyddyn 8) bob wythnos. Y plant hyn oedd y rhai yr oedd ysgolion, gofal cymdeithasol, a gofalwyr maeth yn eu hystyried fel y rhai

mwyaf anghenus ac a oedd angen cael gafael ar gymorth ar y safle trwy anterth y pandemig.

Eglurodd Rheolwr y Grŵp Cymorth i Deuluoedd y byddai gwelliannau'n cael eu gwneud i'r broses PEP ar gyfer gofalu am blant drwy EET wrth symud ymlaen. Byddai'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar deilwra'r cynlluniau i ganolbwyntio mwy ar y plentyn a'u hadolygu'n gyson mewn adolygiadau plant sy'n derbyn gofal. Roedd gwaith ar y cyd rhwng gofal cymdeithasol plant ac Addysg a Chymorth i Deuluoedd yn cael ei wneud yn y maes hwn. Byddai cymorth parhaus yn cael ei gynnig i ysgolion mewn perthynas â'r PDG, gan gynnwys ail-gyflwyno (yn dilyn cyfyngiadau Covid-19) y fforwm arweinwyr Plant sy'n Derbyn Gofal a ddynodir bob tymor ac a hwylusir gan EET. Nod hyn oedd rhannu arfer dda ar draws ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Daeth Rheolwr y Grŵp Cymorth i Deuluoedd i'r casgliad y bu llawer o waith da mewn cyfnod heriol i bob disgybl ond yn arbennig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Byddai'r maes hwn yn parhau i fod yn her gyda'r newid yn ôl i addysg a byddent yn parhau i wneud yr hyn a allent i gefnogi'r plant hynny.

Diolchodd y Cadeirydd i Reolwr y Grŵp Cymorth i Deuluoedd am yr adroddiad a gofynnodd iddo ddiolch i'r timau am y ffordd yr oeddent wedi ymateb mewn amgylchiadau anodd.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i Reolwr y Grŵp Cymorth i Deuluoedd am yr adroddiad a chyfeiriodd at adran 4.7 yr adroddiad a'r nod yn y pen draw o gael pobl ifanc i gyflogaeth ystyrlon. Gofynnodd pa ystod o brofiadau gwaith a gynigwyd a sut roedd plant yn cael eu gosod, a oes rhyngweithio â hwy, ac a oeddent yn cael cyfle i fynd i ardal ddewisol? Atebodd yn gadarnhaol, bod cyfleoedd wedi'u teilwra i bobl ifanc i'w galluogi i ystyried mwy o opsiynau. Cyfeiriodd Rheolwr y Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd at bwysigrwydd gweithio amlasiantaethol ac, o ran y cynnig profiad gwaith, gwneir hyn drwy gydweithio â gofal cymdeithasol plant, gwasanaeth ôl-16, datblygiad ieuenctid, Inspire to Work, ac Adnoddau Dynol. Roedd y cyfleoedd yn amrywio o waith gofal, gwaith lletygarwch, i weinyddu busnes, gan ddibynnu ar ddiddordebau'r person ifanc. Ym Mlwyddyn 11 2019/2020 roedd 24 o blant sy'n derbyn gofal, a nodwyd bod 14 mewn ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr. O'r rheini, dangosodd 7 ddiddordeb ac aethant ymlaen i leoliadau profiad gwaith. Dechreuodd un person ifanc ar brentisiaeth gweinyddu busnes o fewn yr awdurdod lleol.

Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd a oedd COVID wedi effeithio ar ddarpariaeth y cynllun. Atebodd Rheolwr y Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd eu bod wrthi'n siarad â phobl ifanc blwyddyn 11 ac yn archwilio cyfleoedd. Roeddent yn ceisio sefydlu beth yn union y gellid ei wneud o ystyried y cyfyngiadau gyda phellter cymdeithasol ac ati. Ychwanegodd y Cadeirydd fod ganddi blant yn eu harddegau ei hun, a bod datblygu diwydrwydd, trefn, a meithrin hyder oll yn bethau allweddol i ddatblygiad person ifanc yn y dyfodol.

Dywedodd Aelod ei bod yn deall iddi fod yn flwyddyn anodd iawn, a gofynnodd a oedd y bwlch mewn cyflawniad rhwng plant sy'n derbyn gofal a phlant eraill yn gyson ar draws pob ysgol uwchradd. Gofynnodd pa ysgolion oedd yn gwneud y mwyaf dros blant sy'n derbyn gofal. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd ei bod yn anodd iawn defnyddio'r data i gael gwybodaeth am garfan benodol, megis plant sy'n derbyn gofal, yn enwedig am nad oedd ganddynt ddata o'r llynedd ac y byddai eleni'n parhau i fod yn heriol. Y tro diwethaf y cafwyd cymhariaeth genedlaethol o gwmpas perfformiad plant sy'n derbyn gofal oedd tua 2015, felly roedd yn anodd cael darlun cenedlaethol. Mae'n ofyniad statudol i awdurdodau lleol edrych yn fanwl ar sut roedd ysgolion yn defnyddio adnoddau gwahanol, er enghraifft os oedd ysgolion yn derbyn y Grant Datblygu Disgyblion, a'r elfen Plentyn sy'n Derbyn Gofal ohono, roedd yn

ofynnol iddynt gyhoeddi'r hyn a wnaethant gyda'r dysgwyr. Byddai swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion hynny i sicrhau bod yr adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol a bod arfer gorau'n cael ei rannu ar draws ysgolion. Roeddent yn ceisio cau'r bwlch ar draws ysgolion er mwyn sicrhau perfformiad mwy cyson. Eglurodd y Cadeirydd ei bod yn credu bod y cwestiwn yn ymwneud ag adnabod ysgolion ar lefel leol. Roedd Brynteg wedi'i nodi fel ysgol ag arfer dda a gofynnwyd a oedd yn cael ei rhannu ag ysgolion eraill. Atebodd Rheolwr y Grŵp Cymorth i Deuluoedd fod amrywiadau o ran cyrhaeddiad ar draws ysgolion uwchradd, ond iddynt ddechrau o bwynt da o ran yr ysgolion yn ymgysylltu. Yn amlwg, byddai cynnydd PDG yn amrywio yn dibynnu ar bryd y daethant i mewn i'r system felly byddai gwahaniaethau. Rhannwyd arfer dda ar draws yr ysgolion. Caiff cynllun cymorth person ifanc ei ddatblygu er mwyn gwneud y gorau o'u perfformiad ac i sicrhau'r canlyniad gorau posibl o ran ymgysylltu addysgol yn ogystal ag enghreifftiau ymarferol megis bod yn barod ar gyfer bywyd oedolyn. Cadarnhaodd yr Aelod nad amlygu'r rhai oedd ar ei hol hi oedd ei bwriad,  dim ond chwilio cadarnhad bod arfer da yn cael ei rannu.

Gofynnodd yr Arweinydd a oedd swyddogion yn hyderus bod gan bob PDG fynediad digidol priodol o ran eu dyfeisiau eu hunain. Ar ddechrau'r pandemig roeddent yn awyddus i sicrhau bod dyfais ar gael i bob cartref ond gallai hyn greu problemau pe bai'r ddyfais yn cael ei rhannu. Hefyd, gofynnodd a oedd pob dysgwr ifanc yn rhan o'r cynllun llythrennedd llyfrau lle'r oedd plant yn derbyn llyfrau gan yr ymddiriedolaeth, a pha mor llwyddiannus y bu hyn. Gofynnodd a oedd plant sy'n derbyn gofal yn cael eu hannog i gofrestru ar gyfer llyfrgelloedd a chymryd rhan yn rhai o'r gweithgareddau a gynhaliwyd, megis y clwb Lego a'r clwb codio, gweithgareddau a oedd wedi digwydd ers dechrau'r pandemig. Cadarnhaodd Rheolwr y Grŵp Cymorth i Deuluoedd fod pawb sy'n derbyn gofal wedi cael cynnig gliniadur ac, os oedd angen, dongl i helpu gyda materion cysylltedd. Roedd y Clwb Llyfrau yn dal i redeg ac fe'i goruchwyliwyd gan y Tîm Ymgysylltu ag Addysg a gellid darparu ffigurau pe bai angen. Drwy drefniadau'r Bwrdd Rheoli Cyfiawnder Ieuenctid, roeddent yn awyddus i weithio gyda staff yn y gwasanaeth llyfrgell i annog pobl ifanc i gofrestru. Roedd niferoedd sylweddol, a gallent annog mwy er y gallai problemau logistaidd fodoli. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod hwn yn faes yr oeddent yn falch ohono ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a'u bod dros y flwyddyn ddiwethaf wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a theuluoedd 23,000
o Ddysgwyr i nodi 2,000 o ddysgwyr a oedd mewn perygl o gael eu 'hynysu' yn ddigidol ar ddechrau'r pandemig. Dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda chefnogaeth cyllid Llywodraeth Cymru, roeddent wedi dosbarthu dros 6000 o ddyfeisiau, gyda sawl dderbynnydd o fewn yr un cartref yn aml. Nid gliniaduron yn unig ychwaith, ar gyfer y rhai nad oedd ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd darparwyd 310 o ddyfeisiau band eang cefnogol hefyd, gan alluogi plant ar draws y sir i gael mynediad heb gyfyngiadau at adnoddau addysg. Roedd hyn yn rhywbeth yr oeddent yn falch iawn ohono, ac ar hyn o bryd nid oedd unrhyw geisiadau am offer ychwanegol nad oeddent wedi'u hateb. Cytunodd y Cadeirydd ei fod yn gadarnhaol iawn, ac ychwanegodd fod yr awdurdod wedi ymrwymo i'w ddyletswyddau economaidd-gymdeithasol felly roedd yn bwysig iawn sicrhau na wahaniaethwyd yn erbyn y dysgwyr mewn unrhyw ffordd.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol, o ran llythrennedd a rhifedd, pam mai dim ond 33 o'r 271 oedd wedi cael hyfforddiant ychwanegol yn ystod y pandemig. Pam yr oedd anghysondeb mor fawr rhwng y ffigurau? Atebodd y Rheolwr Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd fod yr awdurdod wedi defnyddio cyllid y Grant Datblygu Disgyblion i edrych ar effaith y pandemig ar ddysgwyr, ac yn enwedig y garfan plant sy'n derbyn gofal, er mwyn nodi'r rhai yr oedd angen cymorth ychwanegol yn ogystal â'r hyn yr oedd yr ysgol eisoes yn ei wneud. Byddai'r cynnig hwnnw'n parhau, gan gysylltu ag ysgolion i sicrhau eu bod yn ymwybodol bod y cymorth ar gael.

Awgrymodd yr Arweinydd pe bai Her Ddarllen yr Haf yn cael ei threfnu eto eleni, y byddai'n ffordd ddifyr o gynnwys plant mewn dysgu. Roedd yn gyfle i rai helpu i gau'r bwlch hwnnw a gwneud rhywfaint o ddarllen dros yr haf. Awgrymodd eu bod yn ystyried y fenter honno'n benodol oherwydd ei bod yn ffordd ddifyr a pherthnasol o ennyn mwy o ddiddordeb mewn darllen. Ychwanegodd y Cadeirydd y gallai cyflwyno plant i lyfrau sain fod yn rhywbeth i'w archwilio yn y dyfodol.

PENDERFYNIAD: Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan y Pwyllgor Rhianta Corfforaethol.

229. EITEMAU BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 16:45